Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



# Cynnig: Sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar/Cwm Sirhywi drwy Fodel Egin/Twf

**Cynhelir yr ymgynghoriad fel sy'n dilyn:**
**Dechrau:** Dydd Iau 17 Rhagfyr 2020
**Gorffen:** Dydd Gwener 29 Ionawr 2021

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cydymffurfio gyda chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (F2) Llywodraeth Cymru.

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Beth yw diben y Llyfryn hwn?

Cafodd y llyfryn hwn ei baratoi ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgol a chymuned ehangach Blaenau Gwent. Mae'n rhoi trosolwg o'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig â chynnig y Cyngor i ddatblygu ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Bydd o ddiddordeb neilltuol i rieni/gofalwyr sy'n ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eu plentyn/plant.

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r tîm Trawsnewid Addysg naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn, fel sy'n dilyn:

- **E-bost 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk neu**
- **Ffôn: (01495) 355470**



**Nodiadau Esboniadol** – defnyddir y termau dilynol drwy'r ddogfen hon:

| | |
|---|---|
| **Rhif Derbyn** | Mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion hyd at eu Rhif Derbyn a Gyhoeddwyd. Y rhif derbyn yw nifer y lleoedd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn. |
| **Cynllun Datblygu Lleol** | Mae'n gosod cynigion pob **awdurdod cynllunio** ar gyfer **datblygiad** a defnydd tir yn eu hardal yn y dyfodol. |
| **Lliniaru** | Y weithred o ostwng difrifoldeb rhywbeth. |
| **Nifer ar y Gofrestr** | Nifer y disgyblion mewn ysgol (heb fod yn cynnwys disgyblion meithrin). |
| **PLASC** | Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion Lefel Disgybl. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ym mhob ysgol, eu grŵp oedran, eu cyfeiriad cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, iaith gyntaf a hawl disgyblion i brydau ysgol am ddim. |
| **Model Twf Egin** | Model a ddefnyddir wrth ddatblygu ysgolion newydd, lle caiff grwpiau blwyddyn eu hychwanegu flwyddyn ar flwyddyn. |
| **Lleoedd gwag** | Lleoedd gwag neu heb eu llenwi mewn ysgol |
| **Hysbysiad Statudol** | Hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol cynnig a gafodd ei gwblhau. Dim ond os yw'r Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gyda chynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori y gwneir hyn. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). |
| **Ysgol Gymraeg** | Ysgol lle caiff y Gymraeg ei haddysgu fel iaith gyntaf. |

# Tabl Cynnwys


**Tudalen**

**Adran 1:** Cyflwyniad 6

**Adran 2:** Y Broses Ymgynghori
- Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori? 7
- Cyfnod ymgynghori a sut i gymryd rhan 7
- Ymgynghoriad gyda Phlant a Phobl Ifanc 8

**Adran 3:** Disgrifiad o'r Cynnig a'r Manteision
- Pam fod angen newid 8
- Galw am Ofal Plant ac Addysg Cyfrwng Cymraeg 9
- Disgrifiad o'r Cynnig 12
- Y cynnig 12
  - Beth yw model egin? 13
  - Maint dosbarthiadau yr Ysgol Gynradd Gymraeg 13
  - Manteision ac anfanteision model egin 14
  - Manteision ac anfanteision y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol 14
  - Risgiau a lliniaru 15
  - Cynigion eraill a ystyriwyd ac a wrthodwyd 17
  - Mathau o ddarpariaeth a ystyriwyd 17
  - Modelau llywodraethiant a ystyriwyd 17
  - Safleoedd/lleoliadau a ystyriwyd 17
  - Trefniadau teithio dysgwyr 18
  - Darpariaeth cludiant Ôl-16 18

**Adran 4**: Manylion yr ymgynghoriad
- Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r cam nesaf 18
  - Adroddiad yr Ymgynghoriad 18
  - Hysbysiad Statudol 18
  - Penderfynu ar y cynnig 19
  - Hysbysiad am y penderfyniad 19
  - Amserlen 19

**Adran 5:** Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt
- Niferoedd ysgolion ar y gofrestr ac amcanestyniadau disgyblion 19
- Data lleoedd disgyblion ac amcanestyniadau ysgolion cynradd 19
- Data lleoedd disgyblion ac amcanestyniadau ysgol uwchradd 20
- Ysgolion yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt
  - Tredegar/Cwm Sirhywi 20
  - Ebwy Fawr (Gogledd) 20

**Adran 6:** Ystyriaethau eraill
- Effaith y cynnig ar y Gymraeg 21
- Cyllid 21
- Trefniadau derbyn 22
- Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb 22
- Asesiadau Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg 22

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn 23
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr Ymgynghoriad 23
- Yr angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion 23
- Lleoedd gwag/Materion capasiti 23
- Costau cyfalaf/derbyniadau cyfalaf 23
- Datblygiadau tai 23
- Adnoddau dynol 23
- Partneriaethau 24

24
24

**Adran 7:** Gwerthuso’r Trefniadau Presennol

- Canlyniadau diweddaraf Estyn 25
- Ansawdd a safonau mewn addysg 26
    - Safonau 26
    - Llesiant ac agweddau at ddysgu 26
    - Addysgu a phrofiadau dysgu 26
    - Gofal, cymorth ac arweiniad 26
    - Arweinyddiaeth a rheolaeth 26
- Effaith y cynnig 27

**Adran 8:** Trosolwg o’r Cynnig am Ysgol Newydd

- Niferoedd a threfniadau derbyn a nifer lleoedd meithrin 27
- Ystod oedran
- Lleoedd disgyblion
- Capasiti
- Lleoliad
- Categori ac iaith yr ysgol
- Rhestr llety
- Rhestr cyfleusterau a ddarperir dan y Cynnig
- Dalgylch ysgol 28
- Trefniadau trosglwyddo 28

**Adran 9: Ffurflen Ymgynghori** 29

Atodiad1: Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Atodiad 2: Asesiadau o’r Effaith ar y Gymuned a’r Iaith Gymraeg

## Adran 1: Cyflwyniad




Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r nod o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, cyhoeddodd Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 y byddai £30 miliwn (cyllid 100%, heb unrhyw ofyniad am arian cyfatebol gan Gynghorau) yn cael ei ddyrannu i gefnogi prosiectau cyfalaf neilltuol ar gyfer creu darpariaeth ychwanegol mewn addysg Gymraeg.

Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2017-20 Blaenau Gwent ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018 (mae mwy o wybodaeth ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen ddilynol):
https://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Council/Policies_Strategies_Plans/Blaenau_Gwent_WESP__2017-20_Nov_2017_24th_English.pdf).

Mae Blaenau Gwent yn hyrwyddo ac yn gosod targedau a deilliannau allweddol sy'n gydnaws â thwf a datblygiad addysg a gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy hynny y Gymraeg yn lleol.

Cyngor Blaenau Gwent yw'r unig gyngor yng Nghymru sydd â dim ond un ysgol gynradd Gymraeg. Felly cafodd achos busnes uchelgeisiol ei ddatblygu yn ceisio sicrhau ychwaneged ar lefel gynradd, yn gysylltiedig â galw cudd am leoedd mewn ysgol gynradd Gymraeg, yn neilltuol yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Ym mis Hydref 2018 derbyniodd y Cyngor gadarnhad y cafodd £6 miliwn ei ddyrannu i gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Sicrhaodd Blaenau Gwent hefyd £200,000 drwy Grant Cyfalaf Gofal Plant Llywodraeth Cymru i greu darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ychwanegol o fewn yr ardal.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn ysgol gynradd Gymraeg gyda 215 lle yn nhref Blaenau yng ngogledd cwm Ebwy Fach. Mae'r ysgol yn gwasanaethu Blaenau Gwent i gyd o ran dalgylch ac yn darparu ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig ymateb i'r galw cudd am fwy o leoedd gofal plant ac ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sy'n byw yn Nhredegar a chymoedd Sirhywi ac Ebwy Fawr (gogledd). Drwy'r cyllid a ddyrannwyd fel y manylir uchod, mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu darpariaeth gynradd Gymraeg drwy fodel egin/twf, i ateb y galw cudd a ddisgrifir uchod.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu addysg ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc sydd wedi ei theilwra i ateb eu hanghenion, datblygu eu potensial, ymestyn uchelgais, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at adfywiad economaidd yr ardal. Byddai creu ysgol gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi yn galluogi'r Cyngor i ateb y galw cynyddol am leoedd gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

## Adran 2: Y Broses Ymgynghori

Bydd y ddogfen ymgynghori a'r broses gysylltiedig yn rhoi cyfle i ymgyngoreion a rhai â diddordeb i ddysgu mwy am, deall a mynegi eu barn ar gynnig y Cyngor, fydd yn llywio'r penderfyniad terfynol ar sut y byddir yn symud ymlaen â'r cynnig. Caiff yr adborth a'r sylwadau a geir drwy'r broses eu casglu, eu dadansoddi a'u hadrodd drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor. Bydd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r adborth yn gysylltiedig â hynny.

**Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?**

Caiff y Ddogfen Ymgynghori ei dosbarthu yn unol â Fersiwn 2 Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018). Mae **Ffigur 1** yn rhoi manylion yr ymgyngoreion a gaiff eu targedu yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

| **Ffigur 1:** Grwpiau y bydd y Cyngor yn cysylltu â nhw yn ystod y cyfnod ymgynghori | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni/gofalwyr | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Staff ysgolion | Gwasanaeth Addysg Consortiwm De Ddwyrain Cymru (SEWC) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Trigolion lleol | Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHaG) |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Undebau Llafur |
| Partneriaid Anghenion Addysgol Arbennig | Gwasanaethau Gwybodaeth i'r Teulu |
| Tîm Cynhwysiant yr awdurdod lleol | Dechrau'n Deg |
| Estyn | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Cynghorau Cymuned y mae'r cynnig yn effeithio arnynt | Aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb |

**Cyfnod ymgynghori a sut i gymryd rhan**

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau **ddydd Iau 17 Rhagfyr 2020** ac yn gorffen **ddydd Gwener 29 Ionawr 2021.** Gall ymgyngoreion gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig, fodd bynnag, dylid nodi na chaiff ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod hwn eu cofnodi fel gwrthwynebiad. Pe byddai'r cynnig yn symud ymlaen a bod ymgyngoreion yn dymuno gwneud gwrthwynebiad, bydd angen iddynt wneud hynny mewn ysgrifen yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol a amlinellir ar dudalen 18.

Hoffai'r Cyngor i chi ystyried yr wybodaeth a nodir yn y tudalennau dilynol a rhoi eich sylwadau ar y cynnig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ar yr wybodaeth yn y ddogfen hon, cysylltwch â ni naill drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost islaw neu ein ffonio ar (01495) 355470 os gwelwch yn dda.

21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov,uk

Mae hefyd groeso i chi lenwi'r arolwg ar-lein drwy ddefnyddio'r ddolen ddilynol: https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=160804432322

Dylai pob ymateb i'r ymgynghoriad ddod i law erbyn **5pm ddydd Gwener 29 Ionawr 2021** **fan bellaf.**

Mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynllunio cyfarfodydd rhithiol gyda staff ysgolion, llywodraethwyr, cynrychiolwyr undebau llafur, disgyblion a phartïon eraill â diddordeb. Caiff tudalen cwestiynau cyffredin ei datblygu a'i diweddaru'n wythnosol drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19, ni fydd y Cyngor yn cynnig sesiynau galw heibio. Os teimlwch fod angen a/neu'n teimlo'n gryf am drafod y cynnig wyneb yn wyneb, cysylltwch â ni drwy gyfeiriad e-bost ysgolion 21ain ganrif fel sy'n dilyn: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk a gellir trafod cyfarfod rhithiol.

**Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc**

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Helyg, ynghyd â phlant a phobl ifanc eraill, i gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Datblygwyd fersiwn gyfeillgar i blant a phobl ifanc sydd ar gael drwy'r wefan a chaiff ei rhannu gyda disgyblion ledled Blanau Gwent, ynghyd â Chynghorau Ysgolion a'r Fforwm Ieuenctid. Bydd yr holl wybodaeth a gasglwyd o'r ymgynghoriad yn ffurfio rhan o adroddiad alldro yr ymgynghoriad.

## Adran 3: Disgrifiad o'r Cynnig a'r Manteision

**Pam fod angen newid**





Canran isel o siaradwyr Cymraeg sydd ym Mlaenau Gwent, gyda dim ond 7.8% o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011), mae'r ardal yr ail isaf o blith y 22 Cyngor yng Nghymru. Mae cyfartaledd Blaenau Gwent yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%.

Fel y manylir yn Adran 1 y ddogfen hon, Blaenau Gwent yw'r unig awdurdod yng Nghymru gyda dim ond un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Bro Helyg (ar gyfer disgyblion 3-11 oed) yng Nghwm Ebwy Fach. Nid oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen er mwyn sicrhau lleoedd ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent yn Ysgol Gyfun Gwynllyw. Ar hyn o bryd mae 155 o ddisgyblion 11-19 oed Blaenau Gwent yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae'r cyfraddau trosglwyddo rhwng cynradd ac uwchradd yn 100%, gyda phob disgybl a ddewisodd addysg gynradd Gymraeg yn dewis addysg uwchradd Gymraeg. Mae cyfraddau trosglwyddo wedi parhau'n uchel (rhwng 95% a 100%), ers sefydlu'r ysgol.

Pan agorodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg ym mis Medi roedd 36 disgybl (ar draws pob grŵp blwyddyn) yn mynychu o Dredegar/Cwm Sirhywi. Mae'r niferoedd wedi amrywio ers hynny, gan fod ar eu huchaf yn 42 yn 2011/12. Dechreuodd niferoedd ostwng i 22 ac is rhwng 2015 a 2017. Mae niferoedd wedi sefydlogi dros y 2 sesiwn academaidd ddiwethaf. Caiff dysgwyr eu haddysgu mewn 10 grŵp dosbarth a byddai gan ddosbarth nodweddiadol 1 athro ac 1 cymhorthydd addysgu yn y Cyfnod Sylfaen, a rhwng 25-30 disgybl; fodd bynnag mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hyblyg iawn

i ddiwallu anghenion y plant. Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn ffurfio rhan o raglen Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac felly mae'r ysgol yn y rhaglen ar gyfer ailfodelu ac ailwampio, gan sicrhau darpariaeth gyfartal ym mhob rhan o'r stad ysgolion, tra hefyd yn trin materion addasrwydd fydd yn gwella ansawdd addysgu a dysgu.

Mae Pennaeth yr Ysgol a'r Cyngor yn ymroddedig i gydweithio i godi proffil yr ysgol yn unol â thaith gwella'r ysgol. Gyda chynnig cludiant meithrinfa lawn-amser a rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion meithrin anstatudol, mae cyfanswm nifer disgyblion unwaith eto wedi dechrau cynyddu. Fodd bynnag, mae'r nifer o Dredegar/Cwm Sirhywi a rhan ogleddol cwm Ebwy Fach yn parhau'n gymharol isel o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn 2020 cafodd tua 10 disgybl o Dredegar/Cwm Sirhywi, ynghyd â 10 disgybl o gwm Ebwy Fawr (gogledd) eu derbyn i'r dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Yn ystod sesiynau a digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a digwyddiadau a anelwyd i gasglu barn rhieni y mae eu plant yn cael mynediad i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, mae'r pellter rhwng cartrefi Tredegar a Chwm Sirhywi a'r ysgol yn cael effaith negyddol ar ddewis rhieni wrth ystyried opsiynau addysg ar gyfer eu plentyn/plant. Yn ychwanegol, cafodd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng cymoedd eu disgrifio fel 'gwael' ac yn brin ac mae hynny yn cyfyngu gallu rhieni i gael mynediad i Ysgol Gymraeg Bro Helyg, os a phan nad oes ganddynt fynediad i'w cerbydau eu hunain neu gerbydau teuluol.

**Galw am Ofal Plant ac Addysg Cyfrwng Cymraeg:**

Ar hyn o bryd mae 3 Cylch Meithrin ym Mlaenau Gwent a welodd gynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn darpariaeth Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae cyfraddau trosglwyddo wedi amrywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda chynnydd wedi'i nodi yn unol â darpariaeth feithrin lawn-amser.

Mae cynnydd mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ledled Blaenau Gwent yn unol â'r galw. Bu'r Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent dros y 4 blynedd ddiwethaf, gyda datblygu darpariaeth Ti a Fi a hefyd gylch Meithrin yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi ac Ebwy Fawr. Fel canlyniad sefydlwyd grŵp Ti a Fi ym mis Mai 2018. Agorodd Cylch Meithrin newydd yn Nhredegar ac mae wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r pwyllgor rheoli yn awr yn dymuno recriwtio staff i agor ar gyfer plant yn gynnar yn 2021. Mae'r Mudiad Meithrin hefyd wedi cofrestru diddordeb gyda'r tîm Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent i ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant yn yr ardal.

Mae meithrinfa leol Buds to Blossoms, sy'n seiliedig yn Beaufort, wedi cofrestru gyda'r Mudiad Meithrin a bydd yn dechrau darparu sesiwn Cylch Meithrin ar gyfer plant yn eu gofal. Mae hyn yn gynllun peilot drwy brosiect Dechrau Sefydlu Dechrau Symud y Mudiad Meithrin, yn defnyddio Croesi'r Bont sef cynllun swyddogol trochi iaith y Mudiad Meithrin. Sefydlwyd y cynllun i helpu datblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer staff Cylch, drwy sicrhau eu bod yn cyflwyno patrymau iaith safonol a chyson i'r plant yn eu gofal. Bu ymateb rhagorol i'r cynllun ar draws y rhanbarth. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo a'i gydnabod gan Estyn mewn nifer o adroddiadau Cylch Meithrin yn dilyn archwiliadau mewn gosodiadau.

Mae Cylch Meithrin Gwdihŵ (Brynithel) yn ymestyn eu gwasanaethau ac yn awr yn medru darparu sesiwn drwy'r dydd rhwng 9am - 3pm. Maent hefyd wedi dechrau'r broses o ddod yn ddarparydd Addysg. Byddai hyn yn golygu y gall plant aros yng Nghylch Meithrin Gwdihŵ (Brynithel) ar gyfer eu haddysg feithrin, gan olygu fod y gyfradd trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn debyg o gynyddu yn y Cyfnod Sylfaen, gyda mynediad i'r grŵp dosbarth derbyn. Dywedodd rhieni sy'n

defnyddio'r gosodiad y byddent yn llawer mwy cysurus gyda'u plant/plentyn yn defnyddio cludiant ar oedran dosbarth derbyn nag ar oedran meithrin.

Yn olaf, mae'r tîm Gofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar wedi sicrhau Grant Cyfalaf Gofal Plant o £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gynyddu gofal plant o fewn ardal gogledd Glynebwy. Felly, mae'r Cyngor yn anelu i greu cyfleuster adeilad newydd gyda hyd at 52 lle o fewn ward Badminton, sydd ar y gweill ar hyn o bryd fel cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Dangosodd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a gynhaliwyd gyda rhieni fod 1% o'r plant yn dod o gartrefi sy'n bennaf yn siarad Cymraeg gyda 6% arall yn dweud eu bod o gartrefi dwyieithog. Mae lefel uchel o gefnogaeth rhieni ar gyfer dwyieithrwydd gyda 55% o rieni eisiau i'w plant ddod yn ddwyieithog, fodd bynnag dim ond 8% o rieni oedd yn bwriadu anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg.

Pan ofynnwyd iddynt 'A oes unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar eich gallu i fanteisio o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg?' atebodd 394 o rieni fel sy'n dilyn:

- Na – 68% (269)
- Dim ar gael yn lleol – 7.8% (31)
- Dim ar gael yn yr oriau sydd eu hangen – 1.2% (5)
- Ystod oedran ddim yn addas – 0.5% (2)
- Cost – 2% (8)
- Arall – 4.3% (17) Gofynnwyd am sylwadau oedd yn cynnwys:
    - 'Dim yn siarad yr iaith fy hunan'
    - 'Arolwg Estyn yn wael iawn'
    - 'Pryderus gan nad wyf yn siarad Cymraeg'
    - 'Plentyn mewn ysgol anghenion arbennig
    - 'Mae'r unig ddarpariaeth yn ardal yr awdurdod lleol yn tangyflawni'n ddifrifol ac ni fyddwn yn dewis anfon fy mhlentyn i'w sefydliad dysgu'
    - 'Dim eisiau i S ... orfod teithio'
    - 'Dim ysgol gyfun Gymraeg leol. Bu'n rhaid i fy merch hynaf deithio o Frynmawr i Bont-y-pŵl a bydd yn rhaid i fy mhlentyn 6 oed wneud yr un fath'
    - 'Dim llawer o leoedd – ond heb edrych i'r mater yn iawn'
    - 'Anawsterau gyda chludiant'
    - 'Trafferth yn yr ysgol Gymraeg, newydd symud i ysgol Saesneg'

O'r 31 rhiant a ddywedodd nad oes gofal plant ar gael yn lleol, roedd y gwasgariad daearyddol fel sy'n dilyn: - Sirhywi – 8, Ebwy Fawr – 11, Gogledd Ebwy Fach – 3, De Ebwy Fach – 9. Dangosodd yr arolwg fod y farn wedi hollti am p'un ai oedd digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg gyda 29 rhiant yn cytuno bod a 17 yn anghytuno. Teimlai 51 rhiant fod gofal plant ar gael yn eu dewis iaith, ond nid oedd 10 yn credu hynny. Dangosodd y galw gan rieni y byddai 2 riant yn edrych am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol ac y byddai 21 yn edrych am ofal plant yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn 2018 fe wnaeth y Cyngor gynnal Arolwg Galw Darpariaeth Gymraeg yn ystod tymor yr hydref. Dosbarthwyd yr arolwg i 1,460 o rieni plant 0-2 oed. Cafodd 72 arolwg eu llenwi, sef cyfradd ddychwelyd o 4.93%. O'r 72, roedd 21 o Dredegar/Cwm Sirhywi, 23 o Ebwy Fawr a 28 o Gwm Ebwy Fach. Mae'r canlyniadau perthnasol i'r ymgynghoriad hwn fel sy'n dilyn:

- 52% (38) o gyfranogwyr yn dweud nad oeddent yn teimlo fod ganddynt ddigon o wybodaeth am addysg Gymraeg
- 35% (25) yn dweud eu bod wedi ystyried addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg.
- 28% (20) o gyfranogwyr yn dymuno i'w plentyn fynd i ysgol Gymraeg.

- 82% (59) o gyfranogwyr yn dweud y byddent yn anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg os oedd o fewn 2 filltir i'w cartref.

Fe wnaeth y Fforwm Addysg Gymraeg leol greu rhaglen digwyddiad 'Plant Dwyieithog' a gynhaliwyd o 2017 ymlaen. Nod y rhaglen oedd hyrwyddo a sicrhau fod rhieni'n hollol ymwybodol am addysg cyfrwng Saesneg a hefyd gyfrwng Cymraeg a'r opsiynau gofal plant oedd ar gael iddynt. Mae'r digwyddiadau hefyd yn sefydlu'r rhwystrau y mae rhieni'n tybio sydd ganddynt gyda gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Datblygwyd holiadur ynghyd â dalenni sylwadau a chynhaliwyd dau ddigwyddiad yn Nhredegar/Sirhywi a chwm Ebwy Fawr. Cafodd holiadur ar-lein hefyd ei hyrwyddo gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymraeg i Blant a'r Mudiad Meithrin. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn gyda'r Mudiad Meithrin yn dweud fod Blaenau Gwent yn arwain y ffordd o ran ymgysylltu gyda theuluoedd a rhieni. Mae adborth gan rieni yn dangos y dilynol:

- Gostyngodd gofal plant cyfrwng Cymraeg o fewn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi rhwng 2016 a 2017, a ddylanwadodd ar benderfyniad rhieni i ddewis gofal plant cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r Mudiad Meithrin yn ddiweddar wedi cynyddu'r opsiynau gofal plant sydd ar gael fel y manylir uchod.
- Nid yw cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn cefnogi mynediad ac ymgysylltu effeithlon rhwng rhieni a'r ysgol gynradd Gymraeg bresennol – yn neilltuol ar gyfer rhieni o ardaloedd Tredegar/Sirhywi ac Ebwy Fawr nad ydynt yn gyrru. Felly mynegodd rieni bryderon am gyrraedd eu plentyn mewn argyfwng.
- Roedd rhieni yn bryderus am ba mor hir y mae eu plant yn teithio i'r ysgol i Ysgol Gymraeg Bro Helyg o ardaloedd Tredegar/Sirhywi ac Ebwy Fawr, yn neilltuol yn y cyfnod meithrin a sylfaen.
- Roedd rhieni yn bryderus am i'w plentyn/plant fynychu ysgol gynradd Gymraeg tu allan i'r ardal y maent yn byw ynddi, o ran sut y gallai hyn ddylanwadu'n negyddol ar rwydwaith cymdeithasol a'u cysylltiad gyda ffrindiau/cyfoedion.
- Teimlai rhieni na fedrai'r Gymraeg eu bod angen mwy o wybodaeth ar sut i gefnogi eu plentyn mewn addysg Gymraeg.
- Teimlai rhieni fod lleoliad Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn anfantais ac y dylai fod darpariaeth Gymraeg yn nes atynt.

Yn y digwyddiad yn ardal Tredegar/Sirhywi, dangosodd yr holiaduron a lenwyd y ddilynol:

- 70% (19) o ymatebwyr yn teimlo fod ganddynt ddigon o wybodaeth am ddarpariaeth addysgol.
- 67% (18) o ymatebwyr yn teimlo y byddai eu plentyn yn manteisio o fod yn ddwyieithog.
- 59% (16) o ymatebwyr yn dweud y byddent yn ystyried addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg.
- 92% (25) o ymatebwyr ond yn siarad Saesneg yn y cartref, gyda dim ond 8% (2) yn siarad Cymraeg.
- 74% (20) o ymatebwyr o ardal Tredegar/Sirhywi yn dweud fod eu pellter o gartref yn dylanwadu ar eu dewis o ysgol.
- 67% (18) o ymatebwyr yn dweud fod opsiynau trafnidiaeth a hwylustod mynediad yn dylanwadu ar eu dewis o ysgol.
- 55% (15) o ymatebwyr yn dweud fod adborth ysgolion am eu dewis ysgol yn ffactor bwysig.
- 48% (13) ymatebwyr yn dweud fod eu penderfyniad ar addysg ar gyfer eu plentyn yn digwydd pan maent yn feichiog neu cyn dod yn feichiog

Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi sicrhau cyllid cyfalaf sylweddol er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae datblygiadau gofal plant yn y Gymraeg hefyd yn cynyddu, fydd yn creu

galw ychwanegol am addysg yn yr hirdymor ac felly bydd angen i’r stad ysgolion ddatblygu er mwyn darparu ar gyfer hyn. Os nad yw Blaenau Gwent yn anelu i dyfu ein hopsiynau addysg Gymraeg, cwmpas cyfyngedig sydd ar gyfer twf a datblygu’r Gymraeg lleol yn unol â nod Llywodraeth Cymru ar gyfer 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn olaf, gyda’r ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig ac yn y blaen, mae risg y bydd rhieni yn symud allan o’r fwrdeistref i gael mynediad i addysg Gymraeg os nad ydym yn creu datrysiad lleol cynaliadwy, addas.

## Disgrifiad o’r Cynnig a’r Buddion

### Y Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig datblygu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Mae’r cynnig yn anelu i ddatblygu adeilad yr ysgol ar y safle a ffafrir yn Chartist Way (gweler islaw) fel model egin/twf, lle byddai’r cyfleuster gofal plant, meithrinfa a dosbarth derbyn yn dod i rym o fis Medi 2023, gyda thua 28 o leoedd gofal plant, 24 lle meithrin a 24 lle dosbarth derbyn. Byddai’r ysgol yn tyfu bob blwyddyn ar ôl hynny. Bydd yr ysgol wedi sefydlu’n llawn erbyn 2029, gyda phob grŵp blwyddyn o’r dosbarth Meithrini  Flwyddyn 6 yn weithredol. Cynigir hefyd y bydd gan yr ysgol ddarpariaeth gofal plant ar yr un safle.




Byddai’r ysgol egin newydd yn cael ei chynllunio a’i hadeiladu’n bwrpasol yn unol â safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cynigir y byddai llywodraethiant a strwythur arweinyddiaeth yr ysgol yn estyniad o Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai hyn yn golygu y byddai un Corff Llywodraethu a

newidiadau i'r strwythur staffio, h.y. creu Pennaeth Campws/Rôl Arweinyddiaeth a fyddai'n sicrhau arweinyddiaeth hirdymor o'r ysgol egin tra'i bod yn tyfu.

Mae 4 elfen greiddiol yn y cynnig fel sy'n dilyn:

I. Creu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi.
II. Datblygu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd fel model egin/twf lle bydd y cyfleuster gofal plant a'r grwpiau meithrin a dosbarth derbyn yn dod i rym ym mis Medi 2023, gyda grwpiau blwyddyn ychwanegol yn agor ar gyfer cynnydd disgyblion bob blwyddyn wedyn. Byddai'r ysgol yn gweithredu'n llawn gyda phob grŵp blwyddyn erbyn mis Medi 2029.
III. Sicrhau lleoliad addas. Yn seiliedig ar adolygiad ac ymchwiliad dechreuol ar safle, yr opsiwn a ffafrir yw Chartist Way yn ardal Sirhywi.
IV. Datblygu strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth wedi alinio gyda'r ysgol gynradd bresennol.

Mae cysylltiad anuniongyrchol gyda Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Blaenau Gwent sy'n anelu i:

- Cyfarch twf yn y galw am addysg Gymraeg
- Gostwng nifer lleoedd gwag ac aneffeithlonrwydd y system
- Ehangu ysgolion a cholegau mewn ardaloedd o alw cynyddol
- Cyfarch cyflwr ac addasrwydd ysgolion
- Gwneud asedau addysg ar gael ar gyfer defnydd y gymuned lle mae galw yn bodoli, i optimeiddio seilwaith ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan wasanaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor hanes amlwg o lwyddiant mewn cyflwyno cynigion cymhleth ar drefniadaeth ysgolion, ynghyd â chyflenwi rhaglen Ysgolion Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 pan ddaeth Band B i rym.

Pe na fyddai dim yn newid, ni fydd y Cyngor yn medru diwallu'r galw cudd gan rieni ar gyfer addysg Gymraeg yn ardal Tredegar a Sirhywi.

## Model Egin

### Beth yw ysgol egin?

Mae ysgol egin yn fodel y gellir ei ddefnyddio wrth sefydlu ysgol newydd i alluogi defnyddio'r cyfleusterau a'r staff yn effeithiol tra bydd yr ysgol y tyfu i'w photensial llawn. Mae'r ysgol yn agor i ddechrau ar gyfer gofal plant, meithrinfa a dosbarth derbyn gyda grŵp blwyddyn wedyn yn cael ei ychwanegu bob blwyddyn academaidd nes bod y cohort derbyn cyntaf yn cyrraedd Blwyddyn 6.

### Maint Dosbarthiadau yr Ysgol Gynradd Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn gyntaf y byddai'r ysgol egin ar agor, bydd dau ddosbarth prif ffrwd yn weithredol fel sy'n dilyn:

- **Dosbarth meithrin** lle bydd hyd at **24 lle llawn-amser** ar gael
- **Dosbarth derbyn** gydag uchafswm o **24** lle.

Yn yr ail flwyddyn byddai'r ysgol egin yn cynnwys:

- **Dosbarth meithrin** lle cynigir hyd at **24 lle llawn-amser;**
- **Dosbarth derbyn** gydag uchafswm o **24** lle;
- Dosbarth **Blwyddyn 1** gydag uchafswm o **24** lle;

Yn y drydedd flwyddyn, bydd ysgol egin yn cynnwys:

- **Dosbarth meithrin** lle cynigir hyd at **24 lle rhan-amser;**

- **Dosbarth derbyn** gydag uchafswm o **24** lle;
- Dosbarth **Blwyddyn 1** gydag uchafswm o **24** lle;
- Dosbarth **Blwyddyn 2** gydag uchafswm o **24** lle;

Yn y blynyddoedd dilynol, bydd gan bob grŵp newydd dosbarth derbyn uchafswm o 24 lle. Cyrhaeddir capasiti llawn yr ysgol ym mis Medi 2028 pan fydd pob grŵp blwyddyn yn gweithredu dan drefniant mynediad dau-ddosbarth.

Mae'r tabl islaw yn dangos enghraifft o'r model egin ar gyfer twf o ysgol mynediad un dosbarth. Ystyrir mai'r model egin yw'r datrysiad mwyaf addas ar gyfer ysgolion Cymraeg newydd a chafodd ei dreialu a'i brofi ledled Cymru. Er bod y galw yn cynyddu am addysg Gymraeg, gallai agor ysgol newydd Gymraeg ar unwaith i bob grŵp blwyddyn effeithio a dadsefydlogi ysgolion eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, byddai model egin i raddau helaeth yn lliniaru unrhyw effaith posibl.

| | M | D | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2023/24** | 24 | 24 | | | | | | |
| **2024/25** | 24 | 24 | 24 | | | | | |
| **2025/26** | 24 | 24 | 24 | 24 | | | | |
| **2026/27** | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | | | |
| **2027/28** | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | | |
| **2028/29** | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | |
| **2029/30** | 30 | 30 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 |
| **2030/31** | 30 | 30 | 30 | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 |

**Manteision ac Anfanteision Model Egin**

| Beth yw manteision ysgol egin? | Beth yw anfanteision ysgol egin? |
|---|---|
| • Byddai capasiti'r ysgol yn tyfu wrth i'r galw gynyddu;<br>• Twf sefydlog i gefnogi ysgolion presennol;<br>• Gostwng y posibilrwydd o symud llawer iawn o ddisgyblion o ysgolion eraill;<br>• Rheoli meintiau dosbarthiadau yn effeithlon i gefnogi staffio a chyllideb yr ysgol; a<br>• Gall pobl sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol ddal wneud cais am le yn yr ysgol a gallant fod yn llwyddiannus. | • Mae'n cymryd nifer o flynyddoedd i gyflenwi twf;<br>• Goblygiadau posibl ar gyfer brodyr a chwiorydd gyda newidiadau i ddalgylchoedd; a<br>• Goblygiadau posibl ar gyfer teuluoedd yn symud i ardal Tredegar gyda phlant gwahanol oed. |

**Manteision ac anfanteision y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol**

Bydd y cynnig yn rhoi cyfle cyfartal i ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae eisoes ddewis mawr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac ysgolion Ffydd ar gael i deuluoedd o fewn Blaenau Gwent. Byddai'r cynnig hefyd yn cefnogi'r Cyngor i drin y rhwystrau y mae rhieni yn tybio sydd wrth gael mynediad i addysg Gymraeg a chefnogi teuluoedd i gydnabod manteision bod yn ddwyieithog.

Mae buddion disgwyliedig y cynnig o gymharu gyda'r sefyllfa bresennol (gwneud dim) fel sy'n dilyn:

- Cyfle cyfartal a dewis ar gyfer teuluoedd wrth gael mynediad i ac ystyried opsiwn addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Twf y Gymraeg ac addysg Gymraeg, yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Buddsoddiad cyfalaf o £6.2 miliwn i stad ysgolion Blaenau Gwent, gan wella cyflwr, addasrwydd a mynediad i opsiynau addysg yn lleol.
- Cynyddu darpariaeth gofal plant ar gyfer teuluoedd.
- Creu datrysiad lleol a all gyfarch y galw cudd am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr.
- Parhad a chynaliadwyedd yn nhermau'r opsiynau addysg ar gyfer disgyblion yn symud o osodiadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i addysg statudol.
- Creu cyfleuster addysg arloesol a hyblyg a all gyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Blaenau Gwent a'r rhanbarth.
- Sicrhau amgylchedd dysgu 21ain Ganrif ychwanegol addas i'r diben ar gyfer disgyblion a staff cyfrwng Cymraeg.
- Gostwng maint dosbarthiadau a chodi safonau addysg, gan hwyluso gwell deilliannau ar gyfer disgyblion.
- Creu cyfleoedd i ddisgyblion cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn nes at eu cartrefi.
- Cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal leol, gan gefnogi cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg.
- Byddai'r model egin/twf yn sicrhau nad oes fawr o amharu ar y stad ysgolion bresennol ac yn rhoi digon o amser i'r ysgol dyfu.

Anfanteision y cynnig hwn o gymharu â'r sefyllfa bresennol (gwneud dim) yw:

- Amcangyfrifir y gallai fod amrywiad o tua 2-5% o fewn y cyfanswm poblogaeth disgyblion cynradd ar gyfer ysgolion ac yn ei dro ar gyfer ysgolion uwchradd o fewn Tredegar/Cwm Sirhywi yn dibynnu ar y galw. Fodd bynnag, gydag amrywiadau sefydlog a chadarnhaol mewn cyfraddau genedigaeth, mewnfudo a datblygiadau tai disgwyliedig, mae'r amrywiad yn gyfyngedig ac mae'r effaith ar y stad ysgolion yn debyg o fod yn fach iawn.
- Caiff yr ysgol Gymraeg ei datblygu drwy fodel egin/twf, sy'n golygu mai dim ond i'r grwpiau blwyddyn sydd ar gael o'i chychwyn y caiff disgyblion eu derbyn. Felly bydd cyfleoedd trosglwyddo o fewn y flwyddyn yn gyfyngedig nes bydd yr ysgol wedi datblygu yn llawn.

**Risgiau a lliniaru**

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y categori, iaith, ystod oedran a manylion perthnasol eraill mewn perthynas â'r ysgol newydd arfaethedig:

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| **Dadsefydlogi'r stad ysgolion bresennol** | Nod y cynnig yw datblygu'r ysgol drwy fodel egin/twf, lle byddai darpariaeth gofal plant a grwpiau meithrin a dosbarth yn dod i rym o fis Medi 2023, gyda tua 24 lle gofal plant, 24 lle meithrin a 24 lle dosbarth derbyn ar gael. Byddai'r ysgol yn tyfu wedyn flwyddyn ar flwyddyn. Byddai'r ysgol wedi sefydlu'n llawn erbyn 2029 gyda grwpiau pob blwyddyn o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6 yn weithredol. Byddai'r model twf yn sicrhau nad oes fawr ddim tarfu o ran nifer disgyblion ac yn galluogi'r ysgol a'r Cyngor i benderfynu ar a rheoli'r galw am leoedd.<br><br>Cafodd cyfraddau genedigaeth, symud i fyw i Flaenau Gwent, amcanestyniadau disgyblion a datblygiadau tai i gyd eu hystyried yn unol â'r rhif derbyn a chapasiti'r ysgol newydd. Mae'r data yn dweud wrthym fod y |

| | |
|---|---|
| | stad ysgolion bresennol o ran nifer yr ysgolion, lleoedd disgyblion ac yn y blaen yn gynaliadwy yn y tymor canol – hirdymor, gyda chreu ysgol gynradd Gymraeg ychwanegol.<br><br>Y cynnig yw alinio'r strwythur rheoli a llywodraethiant gydag Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai hyn yn sicrhau y caiff staffio, dyrannu lleoedd disgyblion ac yn y blaen ei reoli i sicrhau nad oes fawr ddim tarfu ar yr ysgol gynradd Gymraeg bresennol.<br><br>Mae disgyblion ar hyn o bryd yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw. Sicrhawyd lleoedd ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent tan o leiaf 2029. Mae cynghorau cyfagos, yn cynnwys Blaenau Gwent, yn cydweithio ar hyn o bryd yn unol â'r cynnig i ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gyfun Gwynllyw i sicrhau lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg i 2019 a thu hwnt. |
| **Nid yw'r broses ymgynghori yn trin safbwynt a dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r prosiect. Felly ni chaiff y prosiect ei gefnogi ac nid yw'n mynd rhagddo.** | Ysgrifennwyd y ddogfen ymgynghori gyda chrynodeb manwl o sut y bydd y cynnig yn gweithio a pham fod ei angen. Datblygwyd cynllun ymgysylltu i sicrhau ymgysylltu parhaus gyda disgyblion, rhieni, staff, rhanddeiliaid eraill a'r gymuned ehangach, ar hyd y broses ymgynghori. |
| **Caiff y prosiect ei gyflenwi'n hwyr a/neu dros y gyllideb** | Mae'r Cyngor yn brofiadol wrth gyflawni prosiectau adeiladu newydd. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo bydd y Cyngor yn datblygu: amserlen fanwl yn cynnwys cerrig milltir allweddol (sydd eisoes yn hysbys), grŵp prosiect arbennig yn cynnwys yr holl swyddogion perthnasol a phroffil ariannol manwl. Byddai'r datblygiad a chyflenwi'r prosiect yn cael ei fonitro'n wythnosol gydag adroddiadau i uwch arweinwyr. |
| **Gwrthodir caniatâd cynllunio ac felly ni chaiff safle ei sicrhau** | Cynhaliwyd gwerthusiad manwl o safle er mwyn dynodi lleoliadau addas ar gyfer yr ysgol newydd. Dynodwyd y lleoliad mwyaf addas a chynhelir ymchwiliad pellach o'r safle ynghyd â chynllunio. Bu ymgysylltu cynnar gyda Cynllunio a bydd yn parhau yn dilyn yr ymgynghoriad os cymeradwyir y cynnig. |
| **Gwrthwynebiad i'r cynnig, gan olygu na chaiff y cynnig ei gyflenwi** | Cafwyd ymgysylltu cadarnhaol eisoes gyda rhanddeiliaid allweddol h.y. yr ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt a'r rhai yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt yn ardal Tredegar/Sirhywi. Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn cynnig cyfle i ysgolion, rhieni, disgyblion a'r gymuned yn ehangach i gael gwerthfawrogiad llawn o'r cyfle cadarnhaol y mae'r cynnig hwn yn ei gyflwyno o fewn Blaenau Gwent.<br><br>Cafodd nifer o opsiynau eu hystyried yn unol â'r cynnig ac mae'r ddogfen hon yn manylu pam fod angen newid a pham mai'r cynnig a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad yw'r opsiwn a ffefrir gan y Cyngor. |

## Cynigion eraill a ystyriwyd ac a wrthodwyd

Ar wahân i'r cynnig a fanylir uchod, cafodd yr opsiynau dilynol eu hystyried yn unol â datblygu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg newydd (wedi'u gwahanu yn ôl math o ddarpariaeth, modelau llywodraethiant a safle/lleoliad):

## Mathau o ddarpariaeth a ystyriwyd

- Cyd-leoli'r egin ysgol Gymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg presennol gyda chapasiti mewnol gwag ar gael i ddarparu ar gyfer ysgol egin a neu adeiladu ysgol

- Cyd-leoli'r egin ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg bresennol gyda digon o gapasiti allanol i ddarparu ar gyfer yr ysgol egin a neu adeiladu ysgol.

Cafodd yr opsiynau uchod eu gwrthod gan y gallent o bosibl:

- Amharu ar y stad ysgolion bresennol h.y. datblygu ysgol egin ar safle byw, gan effeithio ar gapasiti a rhifau derbyn ysgolion.
- Peidio bod yn gynaliadwy wrth i'r ddarpariaeth dyfu.
- Cael effaith negyddol ar drochi o safbwynt y Gymraeg, gan y byddai opsiynau cyd-leoli yn yr ardal lle mae tystiolaeth o alw cudd ar safleoedd ysgol cyfrwng Saesneg presennol h.y. y Saesneg fyddai'r 'norm' amser chwarae a rhwng sesiynau ysgol
- Golygu costau adeiladu cyfalaf uwch yn yr hirdymor, gan y byddai angen dyblu'r gwaith i ailwampio rhannau mewnol neu allanol ysgol bresennol ac yna o bosib adeiladu ysgol newydd wrth i'r niferoedd/grwpiau blwyddyn dyfu.

**Modelau llywodraethiant a ystyriwyd:**

- Trin hon fel ysgol newydd gyda phennaeth a chorff llywodraethu newydd, yn amlwg dan adolygiad cyson o'r ystod cyflog wrth i nifer y disgyblion gynyddu.
- Trin hon fel ysgol newydd, ond ystyried ffederaleiddio gyda'r ysgol gynradd Gymraeg bresennol.

Gwrthodwyd yr opsiynau uchod gan y gallent o bosibl:

- Gael effaith negyddol ar Ysgol Gymraeg Bro Helyg, gydag aliniad cyfyngedig.
- Cael effaith ariannol negyddol o safbwynt refeniw.

**Safleoedd/lleoliadau a gafodd eu hystyried:**

Mae Addysg, Cynllunio, Gwasanaethau Technegol a Stadau wedi cynnal gwerthusiad o safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn yr ardal er mwyn dynodi safleoedd a allai ddarparu ar gyfer ysgol mynediad un dosbarth yn seiliedig ar ganllawiau Bwletin Adeiladu. Arweiniodd hyn at ddynodi'r safle a ffefrir yn Chartist Way (tudalen 12). Mae'r astudiaeth dichonolrwydd yn dangos sut y gallai'r ysgol ffitio ar libart y llain hon o dir. Mae amlinelliad o'r cynllun ar y dudalen nesaf gan gylchu'r lleoliad arfaethedig. Dylid nodi y gall manylion hyn newid.

Mae'r Cyngor wedi ystyried nifer o safleoedd i ddarparu ar gyfer y datblygiad ac wedi culhau'r chwilio i'r safleoedd dilynol:

- Cae Chwarae Deighton – yr opsiwn a ffefrir leiaf gan y byddai'n tynnu bant o'r ysgol bresennol, mae'n ardal werdd a gallai achosi mwy o dagfeydd traffig.
- Tir ger adeilad Vitec yn Nhredegar - gwrthodwyd yr opsiwn hwn oherwydd bod y tir yn ardal gyda risg uchel o lifogydd a bod y tir hefyd wedi ei ddynodi fel caeau chwarae Ysgol Gyfun Tredegar.

**Trefniadau teithio dysgwyr**

Mae Polisi'r Cyngor ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl 16 yn dweud y caiff cludiant am ddim ei ddarparu rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer pob disgybl oedran ysgol statudol sy'n mynychu eu hysgol ddynodedig ac sy'n gymwys dan derfynau pellter y Cyngor. Mae'r terfynau pellter fel sy'n dilyn o fewn Blaenau Gwent:

- Dan 8 oed – yn byw mwy na 1.5 milltir o'r ysgol.
- 8 – 11 oed, yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol.
- 11 – 16 mlwydd oed, yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol..

**Darpariaeth cludiant Ôl 16**

Polisi presennol Blaenau Gwent yw rhoi grant teithio o £150 i bob disgybl/myfyriwr ôl-16 sy'n gymwys ar sail pellter. Ar gyfer myfyrwyr sy'n mynychu safle campws Coleg Gwent gallant naill ai dderbyn y £150 fel arian neu ei dalu'n uniongyrchol i Goleg Gwent er mwyn rhoi cymhorthdal at docyn tymor. Mae'r tocyn tymor yn galluogi myfyrwyr i deithio'n rhatach i Hafan Dysgu Blaenau Gwent neu unrhyw gampws Coleg arall, gyda'r gost ar hyn o bryd ar £1.00 ar gyfer taith sengl.

Gall myfyrwyr sy'n teithio i'r Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn yr Hafan Dysgu wneud hynny yn rhad ac am ddim drwy ddarparydd cludiant cymeradwy a gaiff gontract gan y Cyngor. Mae'n rhaid i adran ADY y Cyngor gymeradwyo defnydd cludiant. Mae'r polisi teithio hefyd yn galluogi disgyblion i fynd i addysg ôl-16 mewn naill ai ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ffydd, drwy ganiatáu teithio am ddim ar drafnidiaeth bresennol yn lle'r grant teithio.

## Adran 4: Manylion yr Ymgynghoriad

### Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r Cam Nesaf

### Adroddiad yr Ymgynghoriad

Caiff adborth o'r ymgynghoriad ei gasglu, ei ddadansoddi a'i gyflwyno mewn Adroddiad All-dro ymgynghoriad i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor ym mis Chwefror 2021. Bydd yr adroddiad ar gael am 2 wythnos ar wefan y Cyngor cyn y gwneir y penderfyniad i symud i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. Mae copïau caled ar gael ar gais o'r cyfeiriad e-bost a fanylir uchod.

### Hysbysiad  Statudol

Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol, bydd y Cyngor wedyn yn mynd allan i hysbysiad statudol ym mis Mawrth 2021. Bydd hyn yn rhedeg am 28 diwrnod, yn ystod y cyfnod hwn gallwch wrthwynebu drwy'r cyfeiriad e-bost a roddir yn y llyfryn ymgynghori. Byddir wedyn yn crynhoi unrhyw faterion a godir gan rai â diddordeb a'i gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Gweithredol i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Os yw'r cynnig yn symud ymlaen, caiff copi o'r Hysbysiad Statudol ei ddangos ar wefan y Cyngor ac yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Bydd copïau caled o'r hysbysiad statudol ar gais.

### Penderfynu ar y cynnig

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn penderfynu ar y cynnig yn seiliedig ar y gwrthwynebiadau a gesglir ar ôl cyfnod yr Hysbysiad Statudol ym mis Ebrill 2021. Gall hyn arwain at gymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynnig gyda diwygiadau.

**Hysbysiad am y penderfyniad**

Unwaith y cymeradwywyd y penderfyniad, anfonir copi electronig o'r penderfyniad at bawb sydd â diddordeb a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o fewn saith diwrnod o'r hysbysiad ym mis Ebrill 2021.

**Amserlen y Broses Statudol**

| Rhagfyr 2020 | Ionawr 2021 | Chwefror 2021 | Mawrth 2021 | Ebrill 2021 | Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | | | | | |
| | | Adroddiad ymgynghori i'r Pwyllgor Gweithredol | | | |
| | | | Hysbysiad Statudol | | |
| | | | | Adroddiad Gwrthwynebiadau Hysbysiad Penderfyniad | |
| | | | | | Gweithredu |

## Adran 5: Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt

**Niferoedd ysgolion ar y gofrestr ac amcanestyniadau disgyblion**

Fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond un ysgol gynradd Gymraeg sydd ym Mlaenau Gwent a chaiff yr holl ddisgyblion uwchradd eu haddysgu yn Nhorfaen, felly dim ond ar un ysgol ym Mlaenau Gwent y mae'r cynnig yn effeithio'n sylweddol arni sef Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr B a sgôr addasrwydd ac mae yn y categori Melyn. Mae'r ysgol uwchradd y maent yn bwydo iddi yn Nhorfaen. Mae'r tabl islaw'n rhoi manylion pellach am yr ysgolion cynradd ac uwchradd:

| Enw a Lleoliad yr Ysgol | Categori | Iaith | Ystod Oed |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau, Abertyleri, NP13 3DQ | A gynhelir | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |
| Ysgol Gyfun Gwynllyw, Heol Folly,Trefddyn Catwg, Pont-y-pŵl NP4 8JD | A gynhelir | Cyfrwng Cymraeg | 11-18 |

**Data lleoedd disgyblion ac amcanestyniadau ysgolion cynradd**

Capasiti'r ysgol yw 258, ynghyd â chapasiti meithrin o 60. Mae'r niferoedd ar y gofrestr (gwir nifer fel ym mis Medi bob blwyddyn (fel sy'n dilyn)

| Tabl 1: Ysgol (capasiti presennol) | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2016 | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2017 | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2018 | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2019 | Gwir Nifer ar y Gofrestr 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gymraeg Bro Helyg (258)** | **232** | **225** | **231** | **209** | **215** |

Mae'r tabl dilynol yn rhoi amcanestyniadau ar gyfer yr ysgol dros y pum mlynedd nesaf (amcanestyniadau ar gyfer mis Medi bob blwyddyn)

| Tabl 2:<br>Capasiti Ysgol | Amcan Medi 2021 | Amcan Medi 2022 | Amcan Medi 2023 | Amcan Medi 2024 | Amcan Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Helyg | 266 | 258 | 253 | 259 | 263 |
| Ysgol egin Cyfrwng Cymraeg | - | - | 48 | 72 | 94 |

**Data lleoedd disgyblion ac amcanestyniadau ysgol uwchradd**
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymgynghori ar gynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gyfun Gwynllyw i 3-18, gweler y ddolen ddilynol i gael mwy o wybodaeth:

Mae'r nifer ar y gofrestr (gwir fel ym Medi bob blwyddyn) fel sy'n dilyn

| Tabl 3:<br>Ysgol (capasiti presennol) | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2016 | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2017 | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2018 | Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2019 | Gwir Nifer ar y Gofrestr 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Gwynllyw (1107) | 939 | 888 | 860 | 819 | 762 |

Mae'r tabl dilynol yn rhoi amcanestyniadau ar gyfer yr ysgol dros y pum mlynedd nesaf (amcanestyniadau ar gyfer mis Medi bob blwyddyn).

| Tabl 4:<br>Ysgol (capasiti presennol) | Amcan Medi 2021 | Amcan Medi 2022 | Amcan Medi 2023 | Amcan Medi 2024 | Amcan Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Gwynllyw (1107) | 778 | 820 | 862 | 875 | 912 |

Pe byddai'r cynnig yn cael ei sefydlu, mae hefyd dybiaeth yr effeithid yn uniongyrchol ar Ysgol Gymraeg Bro Helyg, gan y byddai disgyblion sy'n mynd i'r ysgol o ardal Tredegar/Sirhywi ar hyn o bryd yn dewis mynychu'r ysgol ategol yn ardal Tredegar/Sirhywi.

**Ysgolion yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt**
Er na effeithir yn uniongyrchol arnynt, gallai fod effaith ar ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion ffydd o fewn ardal datblygu'r ysgol (a fanylir islaw) yn nhermau nifer disgyblion:

**Tredegar/ Sirhywi**
- Ysgol Gynradd Bryn Bach, Heol Merthyr, Tredegar NP22 3RX
- Ysgol Gynradd Deighton, Stockton Way, Tredegar NP22 3ES
- Ysgol Gynradd Georgetown, Heol Oakfield, Tredegar, NP22 4LP
- Ysgol Gynradd Glanhywi, Coach Bach, Tredegar, NP22 4RW
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Ashvale, Dukestown, Tredegar, NP22 4AQ
- Ysgol Gyfun Tredegar, Lôn Stabl, Tredegar, NP22 4BH

**Ebwy Fawr (Gogledd)**
- Ysgol Gynradd Glyncoed, Badminton Grove, Glynebwy, NP23 5UL
- Ysgol Gynradd Rhos-y-Fedwen, Heol Honeyfield, Rasa, Glynebwy, NP23 5TA
- Ysgol Gynradd Trehelyg, Stryd Brynheulog, Glynebwy, NP23 6NJ
- Ysgol Gynradd yr Holl Seintiau, Heol yr Ysgol, Glynebwy, NP23 6QP

## Adran 6: Ystyriaethau eraill

### Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ardal. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg o'r cynnig hwn. Caiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion arbennig yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau geni, y nifer o ddisgyblion ychwanegol a all ddod o dai newydd a phatrymau faint o ddisgyblion sydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg/Cymraeg. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i gyflwyno cynlluniau addas i ymdopi gydag unrhyw gynnydd mewn galw. Bydd hyn ar amser priodol i sicrhau fod digon o leoedd ar gael.

Mae Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 Blaenau Gwent (gweler y **ddolen islaw** i gael mwy o wybodaeth) wedi alinio'n uniongyrchol â fframweithiau strategol Llywodraeth Cymru a hefyd y Cyngor. Gellir crynhoi'r blaenoriaethau strategol a amlygir yn y drafft ddogfen WESP am y tair blynedd nesaf fel sy'n dilyn:

- Codi proffil a lefelau cyfranogiad addysg Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2020, i gyfrannu at y weledigaeth o un filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Cynyddu'r cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw gan rieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin Gymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg erbyn 50% yn 2020.
- Gweithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau lleol De Ddwyrain Cymru i sicrhau lleoedd ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd Gymraeg rhwng 2017-2020 a thu hwnt.
- Gwella deiliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg erbyn 2020 fel y gall dysgwyr godi eu huchelgais a gwella eu cyfleoedd bywyd.

Mae'r cynnig cyfrwng Cymraeg yn amserol gan fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent (WESP) 2017-20 ym mis Mawrth 2018 (gweler y ddolen ddilynol i gael mwy o wybodaeth): https://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Council/Policies_Strategies_Plans/Blaenau_Gwent_WESP__2017-20_Nov_2017_24th_English.pdf). Mae'r cynllun yn annog cynyddu cyfleoedd addysg Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd y cynnig hefyd yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg 2050: https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-eng.pdf

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r cwricwlwm, gan fuddsoddi'n sylweddol mewn datblygiadau yn ymwneud â'r Gymraeg a allai weld dileu Cymraeg ail iaith fel pwnc, gyda phob disgybl yng Nghymru yn astudio Cymraeg iaith gyntaf.

**Cyllid**

Mae Blaenau Gwent wedi sicrhau £6.2 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda 210 lle yn cynnwys darpariaeth feithrin a gofal plant drwy fodel egin/twf.

Fodd bynnag bydd costau refeniw yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn. Cafodd y ffigur islaw ei gyfrif yn seiliedig ar arwynebedd mewnol crynswth yr ysgol arfaethedig, uchafswm amcanestyniad

poblogaeth disgyblion o 48 yn ei blwyddyn gyntaf. Amcangyfrifir y bydd gwariant refeniw o tua £232,000 yn 2023/24 (yn cynnwys cynnal a chadw adeilad, gwasanaeth gofalwr, glanhau, cynnal a chadw tiroedd, ynni ac ardrethi ac yn y blaen) ynghyd ag arweinyddiaeth a gweinyddu. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar sylfaen prisiau 2020/21. Byddai'r costau yn cael eu hariannu o'r Gyllideb Ysgolion Unigol.

Caiff costau cludiant eu hariannu drwy gyllideb Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor. Rhagwelir na fyddai costau cludiant yn cynyddu'n sylweddol, gyda gostyngiad mewn costau cludiant i Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn gwrthbwyso unrhyw gostau ychwanegol a gaiff eu creu drwy ddatblygu'r ysgol newydd.Mae'n debygol y bydd effaith ariannol gadarnhaol ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a byddai angen cynnal asessiad er mwyn meintioli'r buddion gostyngiad cost tebygol pe gweithredid y cynnig.

**Trefniadau derbyn**

Os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, Cyngor Blaenau Gwent fydd yn gweithredu fel Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol newydd. Bwriedir i'r ysgol newydd gael 210 o leoedd ysgol gynradd ynghyd â darpariaeth feithrin ar gyfer 24 lle llawn-amser (cyfwerth â 48 rhan-amser). Cynigir y bydd yr ysgol yn dechrau fel "ysgol egin" gyda'r myfyrwyr yn cael eu derbyn i ddechrau i'r dosbarthiadau derbyn a meithrin a fydd yn gwneud cais fel rhan o'r cylch derbyn arferol. Bydd gan y grŵp nifer derbyn o 24 ar gyfer pob grŵp blwyddyn a all dyfu wrth i'r ysgol dyfu.

Fel yr awdurdod derbyn ni all Cyngor Blaenau Gwent gynnig polisi gwarantu lleoedd yn neilltuol o gofio am ofynion deddfwriaeth y Llywodraeth ar ddosbarthiadau babanod sy'n cyfyngu maint dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen i ddim mwy na 30 disgybl ym mhob dosbarth. Er nad yw'n statudol, y maint "targed" ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 yw 30 hefyd. Os yw ceisiadau am dderbyn i ysgol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd meini prawf a gyhoeddodd y cyngor ar gyfer pan mae mwy o geisiadau nag o leoedd yn weithredol.

**Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad manwl o'r effaith ar Gydraddoldeb er mwyn asesu effaith y cynnig a phenderfyniadau ar y nodweddion gwarchodedig. Rhoddir crynodeb o'r effaith o fewn yr asesiad o sgrinio ar Gydraddoldeb sydd ar gael yn **Atodiad 1.**

**Asesiadau Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg**

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned er mwyn asesu effaith y cynnig ar randdeiliaid a'r gymuned ehangach. Gweler **Atodiad 2** ar gyfer y crynodeb.

Mae'r cynnig yn ymwneud â datblygu darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol; felly disgwylir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, mynediad i a darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg, ynghyd â chyfleoedd ymgysylltu â rhieni a'r gymuned.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC):**

Yn ei holl gyfrifoldebau corfforaethol mae'r Cyngor yn sicrhau y bydd bob amser yn ymgysylltu mewn modd cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Os gweithredir y cynnig hwn, cedwir saith nod greiddiol y Confensiwn:

Gan gyfeirio'n neilltuol at:

- **Erthygl 28** Mae gennych hawl i addysg.
- **Erthygl 29** Mae gennych hawl i addysg sy'n ceisio datblygu eich personoliaeth a'ch galluoedd i'r graddau mwyaf posibl ac sy'n eich annog i barchu hawliau a gwerthoedd pobl eraill ac i barchu'r amgylchedd.

**Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr Ymgynghoriad**

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd y tîm Trawsnewid Addysg mewn partneriaeth gydag ysgolion, y tîm Cynhwysiant a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgynghori gyda disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn ogystal â gyda Fforwm Ieuenctid ac Uwch Gyngor Ysgolion Blaenau Gwent.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ystyried yn gyson ddigonolrwydd lleoedd i ateb y galw lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Lleoedd gwag/materion capasiti**

Mae gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg gapasiti ar gyfer 215 disgybl. I ateb y galw cyfredol a'r dyfodol mae angen cynyddu capasiti ar gyfer cynllun tymor canol i hirdymor y Cyngor. Os yw'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn symud ymlaen bydd hyn yn galluogi cynnig mwy o leoedd yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn unol â datblygu'r cyfleusterau gofal plant a gynigir.

Yn y tymor byr cymharol ychydig o effaith fydd ar ddarpariaeth gynradd (mae tybiaeth y bydd tua 3 plentyn o bob un o ddalgylchoedd yr ysgol yn gwneud cais am fynychu) yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr. Fodd bynnag, yn y tymor hir gyda'r nifer yn cynyddu flwyddyn ar flwyddyn i fynychu'r ddarpariaeth egin cyfrwng Cymraeg, bydd effaith yn seiliedig ar brosiectau cyfredol.

Tybir mai ar Ysgol Gyfun Tredegar fyddai'r effaith mwyaf os yw 24 disgybl yn dewis addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg fel canlyniad i fynychu'r ysgol egin cyfrwng Cymraeg.

**Costau cyfalaf/derbyniadau cyfalaf**

Caiff amcangyfrif costau cyfalaf y prosiect eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac maent tua £6.2m. Ni ddisgwylir bod unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynllun, byddai'r cyngor yn ildio derbyniad cyfalaf yng nghyswllt y tir y bydd yn ei ddefnyddio ar gyfer yr adeilad.

**Datblygiadau tai**

Ar gyfartaledd, yn y 5 mlynedd ddiwethaf, cafodd 90 tŷ eu hadeiladu ym Mlaenau Gwent bob blwyddyn. Disgwylir y bydd y lefel yma o dwf yn parhau. Mae gan y darpar gartrefi hyn naill ai ganiatâd cynllunio yn barod, maent yn ceisio cytundeb cyfreithiol neu maent wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Bydd mwy o blant yn byw mewn tai newydd yn ogystal â mwy o blant yn byw mewn tai sydd eisoes yn bodoli. Felly bydd lleoedd ysgol ychwanegol yn gyffredinol mewn

cynlluniau presennol yn tyfu. Mae **Ffigur 2** yn dangos y nifer o ddatblygiadau tai sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd.

| | Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Tredegar** yn yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd. | | | | | Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Ebwy Fawr** yn yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd. | | | | | Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Ebwy Fach** yn yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
| Cymdeithasau Tai: | 23 | 18 | 0 | 0 | | 13 | 13 | 33 | 0 | | 0 | 16 | 20 | 0 | 0 |
| Tai Sector Preifat | 8 | 7 | 6 | 6 | | 34 | 104 | 92 | 32 | | 3 | 53 | 40 | 17 | 12 |
| Cyfanswm | **31** | **25** | **6** | **6** | | **47** | **117** | **125** | **32** | | **3** | **69** | **60** | **17** | **12** |

I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar y dudalen ddilynol ar wefan Blaenau Gwent:
https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/planning/local-development-plan/ldp-allocations/

Dengys y data uchod fod 472 o dai yn cael eu cynllunio rhwng 2020 – 2024 gan ddangos neu gynllunio cynnydd yn nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn mewn tai presennol. Fodd bynnag, byddai darpariaeth ar gyfer y boblogaeth o fewn yr ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd presennol heb fawr neu ddim effaith ar yr ysgolion arbennig.

**Adnoddau Dynol**

Byddai agor darpariaeth newydd yn sicrhau cyfleoedd i gynyddu'r cohort staff ac yn rhoi cyfleoedd ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff i gael hyfforddiant yn y Gymraeg drwy wahanol lwybrau. Os cytunir ar y cynnig, sefydlir grŵp i edrych ar y gofynion staffio a'r model llywodraethiant yn fwy manwl.

**Partneriaethau**

Mae rhaglen ymgysylltu 'Y Blaenau Gwent a Garem' yn ymwneud â phobl leol, busnesau a sefydliadau yn cael llais yn sut y gallwn wella Blaenau Gwent ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ei flwyddyn gyntaf mae'r grŵp eisoes wedi cysylltu gyda dros 1,500 o bobl o bob rhan o Flaenau Gwent i ganfod sut hoffent i'r ardal fod yn y dyfodol. Defnyddiwyd eu hadborth i'n helpu i lunio nifer o flaenoriaethau y byddwn yn gweithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i'n helpu i greu'r Blaenau Gwent a garem i gyd.

Mae ein Cynllun Llesiant yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer gwella llesiant ym Mlaenau Gwent a chyflawni ein dyletswyddau dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Datblygwyd y 5 amcan yn y cynllun i adlewyrchu bod Blaenau Gwent eisiau

- **Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb**
- **Cymunedau diogel a chyfeillgar**
- **Gofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol**
- **Llunio llwybrau newydd i ffyniant**
- **Annog ffyrdd iach o fyw**

Mae'r amcanion llesiant hyn yn rhai a ystyriwn y gallent yn wir sicrhau newid, y mae mwyaf o frys amdanynt ac y dengys y dystiolaeth eu bod angen grym cyfunol partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflenwi a gwella llesiant.

## Adran 7: Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

### Canlyniadau diweddaraf Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Diben arolwg yw dynodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion fel y gallant wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf Estyn yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn 2020, a dangosir y canlyniadau yn y tabl islaw:

| Maes arolygu | Dyfarniad |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Da |
| Profiadau addysgu a dysgu | Digonol ac angen gwella |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

Os caiff ysgol ddyfarniad digonol neu anfoddhaol, bydd Estyn neu'r awdurdod lleol yn ei monitro nes y bernir fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei thynnu o'r rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant. Drwyddi draw, mae'r asesiad hwn yn ganlyniad da ar gyfer yr ysgol gyda dim ond 4 argymhelliad am welliannau:

- **A1** Sicrhau bod yr addysgu a'r profiadau dysgu yn datblygu annibyniaeth holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gyson
- **A2** Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol
- **A3** Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn blaenoriaethu a mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf

Rhoddir detholiad o sylwadau o'r arolwg diweddaraf islaw:

- Ychydig iawn ohonynt sy'n medru siarad Cymraeg cyn cychwyn. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.
- Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn gadarn yn yr ysgol ac yn sylfaen effeithiol ar gyfer cynnal ethos gofalgar a chefnogol. Mae bron bob disgybl yn siarad gyda balchder am eu hysgol.
- Mae'r disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw yng ngwaith strategol yr ysgol. Mae aelodau'r ystod eang o bwyllgorau plant yn cael dylanwad pwrpasol ar wahanol agweddau o'r ysgol.
- Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o hunanwerthuso parhaus.

### Ansawdd a safonau mewn Addysg

Caiff ansawdd a safonau ysgolion Blaenau Gwent eu monitro gan y Cyngor, yn unol â'r system genedlaethol o gategoreiddio ysgolion a chanllawiau yng nghyswllt ysgolion sy'n achosi consyrn. Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru a chafodd ei sefydlu dan Ddeddf Addysg 1992. Caiff safonau ac ansawdd darpariaeth hefyd eu monitro'n gyfnodol drwy Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer arolygu ysgolion.

Ers 2012, mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i gefnogi gwella ysgolion Blaenau Gwent. Mae EAS yn darparu cymorth gwella ysgolion i'r cynghorau dilynol: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Fel rhan o'r cynnig hwn bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda EAS i sicrhau lefelau uwch o gymorth i'r ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau fod cefnogaeth briodol yn ei lle yn ystod y cyfnod pontio.

**Safonau:** Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y safonau yn yr ysgol Gymraeg yr effeithir arnynt. Bydd adeilad yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn derbyn y lefel briodol o her a chefnogaeth yn unol â'r trefniadau yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:** Disgwylir y bydd darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion yn yr ysgol gynradd egin Gymraeg a gynigir yn galluogi mwy o blant i fynychu'r ysgol yn eu cymuned leol. Bydd creu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cynyddu dewis rhieni ac yn darparu addysg Gymraeg yn nes adref ar gyfer plant sy'n byw yn Nhredegar a chymoedd Sirhywi ac Ebwy Fawr (Gogledd). Mae llesiant disgyblion yn flaenoriaeth ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg a chaiff hynny ei fonitro a'i adrodd. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar lesiant ac agweddau at ddysgu yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:** Bydd yr addysgu yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol gyda'r Gymraeg yn iaith addysgu a dysgu. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol eraill yr effeithir arni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:** Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn gymuned ofalgar a chymhwysol sy'n darparu gofal a chymorth ansawdd uchel i bob disgybl, bydd hyn yn parhau yn yr ysgol newydd. Mae'r holl staff yn ymroddedig i ddynodi anghenion disgyblion ar gam cynnar a rhoi cefnogaeth werthfawr iddynt. Caiff adeilad yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar/Cwm Sirhywi ei chefnogi gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg, y Cyngor a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad ansawdd uchel. Ni fydd unrhyw newid mewn gofal, cymorth ac arweiniad yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:** Mae gan bennaeth ac arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir a chadarn i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu lwyddiannus drwy ddarparu addysg a gofal ansawdd uchel i bob disgybl, bydd hyn yn parhau yn y gosodiad ysgol newydd. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio'n gadarn ar godi safonau, datblygu balchder at y Gymraeg, a llesiant disgyblion. Mae tîm arweinyddiaeth effeithlon i gefnogi'r gwaith o osod cyfeiriad strategol penderfynol ar gyfer holl waith yr ysgol. Ni fydd unrhyw newid yn sut y bydd ansawdd ac effeithlonrwydd arweinwyr a rheolwyr yn perfformio. Ar safle'r ysgol egin Gymraeg arfaethedig, bydd tîm arweinyddiaeth yr ysgol yn derbyn cymorth ac arweiniad gan y Cyngor a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau bod arfer gorau mewn arweinyddiaeth a rheoli yn parhau ac yn cael eu defnyddio.

**Effaith y cynnig**

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, caiff yr effaith ar Ysgol Gymraeg Bro Helyg ei liniaru i raddau helaeth gan y bwriedir sefydlu model rhannu llywodraethiant ar draws y ddwy ysgol. Bydd yn

parhau i ddarparu amgylchedd dysgu ansawdd uchel i gefnogi gwell canlyniadau ar gyfer pob dysgwr. Bydd y cynnig yn sicrhau y caiff y safonau, sydd eisoes yn rhagorol, eu trosglwyddo a'u datblygu ymhellach.

Fel y soniwyd yn flaenorol (Tudalen 13) mae gan dwf yr ysgol y potensial i effeithio ar ddarpariaeth gynradd ac uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg, ynghyd ag ysgolion cynradd ffydd. Bydd yr effaith mwyaf ar ysgolion cynradd yn 2029/30, gyda'r golled fwyaf o nifer disgyblion – os yn llwyr o fewn y boblogaeth disgyblion bresennol/disgwyliedig byddai hyn tua 24-30 disgybl ar draws yr ysgolion cynradd a fanylir ar dudalen 20. Mae hefyd effaith bosibl ar gyfer darpariaeth uwchradd o hynny ymlaen, gyda'r un uchafswm lefel o golled.

## Adran 8: Trosolwg o'r Cynnig am Ysgol Newydd

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y categori, iaith ac ystod oedran a manylion perthnasol eraill mewn perthynas â'r ysgol newydd arfaethedig:

| Trosolwg o'r Cynnig am Ysgol Newydd | |
|---|---|
| **Nifer derbyn a threfniadau** | Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithredu fel yr awdurdod derbyn ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol newydd.<br>Y niferoedd derbyn o 2023 fydd:<br>• Meithrin:24<br>• Dosbarth Derbyn:24<br>Caiff derbyn ei reoli yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Feithrin ac Addysg Statudol (2022/23). |
| **Ystod oedran** | 3-11 oed (gyda darpariaeth gofal plant ychwanegol) |
| **Capasiti'r ysgol newydd** | Darpariaeth egin Tredegar 210 lle |
| **Lleoliad** | Opsiwn a ffefrir: Chartist Way, Sirhywi, Tredegar. |
| **Categori ac iaith yr ysgol** | Ysgol Gynradd Gymraeg a gynhelir |
| **Rhestr adeiladau ac ystafelloedd** | **Caiff rhestr fanwl o'r holl adeiladau ac ystafelloedd eu penderfynu yn dilyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, bydd y cyfleuster yn cynnwys:**<br>• Meithrinfa ac ystafelloedd hylendid cysylltiedig ac ystafell tawelu<br>• 5 ystafell ddosbarth safonol Cyfnod Sylfaen<br>• 2 ystafell ddosbarth Cyfnod Allweddol 2<br>• Gofodau addysgu hyblyg<br>• Neuadd fwyta/gwasanaethau a chegin/man arlwyo<br>• Swyddfeydd y pennaeth a gweinyddol<br>• Ystafell staff<br>• Strydoedd addysgu<br>• Ystafell dawelu<br>• Ardaloedd chwarae/dysgu dan orchudd<br>• Maes chwarae ac ardal gymdeithasol feddal (glaswellt)<br>• Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr un lleoliad |

| | |
|---|---|
| **Trefniadau a pholisi cludiant** | Caiff cludiant ei gyflwyno yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl 16 2019 Blaenau Gwent. Gweler Adran 1 i gael mwy o wybodaeth. |
| **Categori ysgol (2019)** | Dim yn berthnasol |
| **Canlyniadau Arolwg Estyn** | https://www.estyn.gov.wales/provider/6772307 Chwefror 2020 |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | A |
| **Categori Addasrwydd Adeilad** | A |

**Dalgylch ysgol**

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Helyg a'r ysgol egin a gynigir yn dal i wasanaethu Blaenau Gwent i gyd, gyda ffocws yr ysgol egin ar ddisgyblion o ardal Tredegar, Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr.

**Trefniadau trosglwyddo**

Ni fydd unrhyw newid ar gyfer disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Bydd y cynnig yn effeithio ar ddisgyblon sy'n gwneud cais am le ysgol yn sesiwn academaidd 2023/24. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Gymraeg Bro Helyg a phartneriaid Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i sicrhau fod prosesau cynllunio a throsglwyddo effeithlon yn eu lle.

## Adran 9: Ffurflen Ymgynghori

## Holiadur Ymgynghori

Rhowch eich sylwadau os gwelwch yn dda ar y cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi drwy fodel Egin/Twf. https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=160804432322

Gallech hefyd ddymuno nodi pa un o'r dilynol sy'n adlewyrchu eich barn:

| | |
|---|---|
| Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llawn | |
| Rwy'n cefnogi peth o'r cynnig | |
| Nid wyf yn cefnogi'r cynnig | |

Eich sylwadau:

Enw: ______________________________________________ Dyddiad: _________

E-bost: ____________________________________________________________

Cyfeiriad: ____________________________________________ Cod Post: ________

**Nodwch os gwelwch yn dda os ydych yn:**

**Cynradd:** Athro neu Athrawes/Staff Ysgol heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl /Preswylydd Lleol / Arall (noder) ______________________________

**Uwchradd:** Athro neu Athrawes/Staff Ysgol heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl /Preswylydd Lleol / Arall (noder) ______________________________

**Diolch am eich amser a'ch cyfraniad at yr ymgynghoriad. Caiff eich barn, sylwadau ac ymatebion eu cofnodi a'u hadrodd i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor yn yr Adroddiad Canlyniad Ymgynghoriad.**

**Datodwch y ffurflen hon a'i dychwelyd drwy anfon** E-bost: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

**Rhaid derbyn pob sylwadau erbyn 5:00pm ddydd Gwener 29 Ionawr 2021 fan bellaf**

## Ffurflen Sgrinio

| **Gwybodaeth Gyswllt Maes Gwasanaeth:** *(Llenwch bob maes os gwelwch yn dda)* | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Person a Lenwodd y Ffurflen:**<br>*Sharon Northall* | **Adran/Maes Gwasanaeth:**<br>*Cyfarwyddiaeth Addysg* | **Rheolwr Gwasanaeth:**<br>*Claire Gardner* | **Dyddiad:**<br>*30/11/2020* |
| **Manylion Cyswllt:**<br>*sharon.northall@blaenau-gwent.gov.uk* | | **Teitl y Polisi Arfaethedig:**<br>*N/A* | |
| **Gwybodaeth Polisi** | | | |
| **A ydych yn sgrinio am yr effaith ar Gydraddoldeb ar bolisi newydd neu bolisi presennol:** N/A Dewiswch eitem. | | **Sylwadau:**<br>Mae'r sgrinio hwn mewn cysylltiad â datblygu Ysgol Gynradd newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi | |
| **Beth yw nodau ac amcanion y polisi:**<br>*Nid oes unrhyw ddatblygiadau polisi cysylltiedig, fodd bynnag mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnig i gynyddu darpariaeth Addysg a Gofal Plant cyfrwng Cymraeg o fewn y fwrdeistref.* | | | |

**Asesiad Effaith y Polisi/Ymarfer ar Nodweddion Gwarchodedig**

| Nodwedd Gwarchodedig | Effaith Gadarnhaol | Effaith Negyddol | Effaith Niwtral | Rhowch resymau ac unrhyw liniaru sydd ei angen |
|---|---|---|---|---|
| Oed (plant, pobl ifanc, yr henoed) | ☒ | ☐ | ☐ | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar bob oed, drwy gynnig mwy o gyfleoedd iddynt gael eu haddysgu, dysgu a chael mynediad i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Anabledd | ☒ | ☐ | ☐ | Bydd yr ysgol ar gael yn llawn yn unol â safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| Rhywedd | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Hil | ☐ | ☐ | ☒ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Crefydd a Chredo | ☐ | ☐ | ☒ | |
| Rhyw (gwryw/benyw) | ☒ | ☐ | ☒ | *Cliciwch yma i ychwanegu geiriad* |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | ☐ | ☐ | ☒ | *Cliciwch yma i ychwanegu geiriad* |

***<u>Dangosyddion Ychwanegol o Risg Cydraddoldeb</u>***

*Nodwch os cedwch fod gan y polisi/ymarfer hwn risg uchel, canolig neu isel fel sy'n dilyn (1 = Dim Effaith; 2 = Effaith Fach; 3 = Effaith Bosibl; 4 = Effaith Tebygol; 5 = Effaith Anghydraddoldeb)*

| | | |
|---|---|---|
| Plant a/neu bobl ifanc hyd at 18 oed | 1 | *Nodwch yma unrhyw ddulliau y bwriedir iddynt liniaru'r risgiau hyn*<br>*Cliciwch yma i ychwanegu geiriad* |
| Deinameg cymuned benodol | 1 | *Nodwch unrhyw ddulliau y bwriedir iddynt liniaru'r risgiau hyn. Bydd mwy o opsiynau i rieni eu hystyried yn seiliedig ar ysgol eu plentyn: cyfrwng Saesneg, Ffydd a chyfrwng Cymraeg* |

***<u>Cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb</u>***

*Nodwch islaw os/sut y bydd eich cynnig yn cyfrannu at yr Amcanion Cydraddoldeb.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amcan 1 – Gwneud cydraddoldeb yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaeth | Bydd ☒ | Na ☐ | |
| Amcan 2 – Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o ac yn deall yr agenda cydraddoldeb | Bydd ☒ | Na ☐ | Cliciwch yma i ychwanegu geiriad |
| Amcan 3 – Gwneud ein gorau i ymgysylltu, diogelu a chefnogi'r bobl hynny yn ein cymuned sydd fwyaf ei angen | Bydd ☒ | Na ☐ | Cliciwch yma i ychwanegu geiriad |
| Amcan 4 – Hyrwyddo dealltwriaeth a derbyniad o amrywiaeth o fewn ein cymunedau | Bydd ☒ | Na ☐ | |

***<u>Tystiolaeth ac Ymgynghoriad</u>***

| | | | |
|---|---|---|---|
| A ydych wedi cynnal unrhyw weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu gyda grwpiau gwarchodedig i liniaru unrhyw risgiau o wahaniaeth | Do ☐ | Na ☐ | *Disgrifiwch y gweithgareddau ymgysylltu a wnaed fel rhan o'r broses*<br>Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol gyda'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn casglu eu barn. |

*Nodwch unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fedrai ddangos yr ystyriwyd yr anghenion i grwpiau gwarchodedig yng nghyswllt y cynnig neilltuol hwn*

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Iaith Gymraeg

## Cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi

**Tachwedd 2020**

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Pe byddai'r Cyngor yn dymuno gweithredu'r cynnig ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad ffurfiol, cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Gymuned.

## 2. Cyd-destun cenedlaethol

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru Tachwedd 2018 (f2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Effaith ar y Gymuned ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi fod angen i awdurdodau lleol ystyried yr effaith y gall y cynigion ei gael ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol drwy gynnal asesiad effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg drwy asesiad effaith iaith, os yw unrhyw ysgol yr effeithir arni yn darparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 3. Cyd-destun lleol

Mae Blaenau Gwent yn ymroddedig i foderneiddio addysg, gan sicrhau fod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael adeiladau modern ac addas i'r diben sy'n diwallu anghenion addysg fodern. Ym mis Ebrill 2017 cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth Addysg y 'Weledigaeth ar gyfer Addysg' i sicrhau cyflawniad a llesiant rhagorol i bob dysgwyr drwy system partneriaeth hunan-wella dan arweiniad yr ysgolion. Mae'r Cyngor yn anelu cyflenwi pum blaenoriaeth, gyda'r bumed blaenoriaeth yn cyfeirio at wella ansawdd ein stad ysgolion.

### Effaith ar y gymuned

Fel rhan o ddatblygu'r ddogfen ymgynghori, mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynnal Asesiad Effaith ar y Gymuned a fanylir islaw, wrth ystyried y cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi.

### a. Nifer disgyblion yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi

Mae 1,913 disgybl o oedran ysgol statudol yn mynychu ysgolion yn Nhredegar/Cwm Sirhywi, gyda 1,247 ohonynt yn ddisgyblion cynradd a 666 yn ddisgyblion uwchradd. Mae 58% (724) o'r boblogaeth oedran ysgolion cynradd yn mynychu eu hysgol dalgylch, mae'r canran ychydig yn uwch o fewn Ysgol Gyfun Tredegar gyda 94% (622) o'r dalgylch yn mynychu. Mae'r 6% arall (44) o ddisgyblion yn byw tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi.

Gan fod y cynnig yn anelu i ddatblygu'r ysgol drwy fodel egin/twf, cafodd cyfrifiadau eu gwneud yn defnyddio data meithrin, dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 presennol.

<u>Data Meithrin</u>

Allan o'r 148 o ddisgyblion oed meithrin, mae 62% (92) o ddisgyblion yn mynychu eu hysgol dalgylch, 32% (48) o ddisgyblion yn mynychu ysgol yn Nhredegar heb fod eu hysgol dalgylch gyda'r 6% arall yn byw y tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf yng Nglynebwy a/neu allan o'r fwrdeistref).

Data Dosbarth Derbyn
Allan o'r 166 o ddisgyblion oed dosbarth derbyn, mae 59% (99) o ddisgyblion yn mynychu eu hysgol dalgylch, mae 35% (57) o ddisgyblion yn mynychu ysgol yn Nhredegar nad yw eu hysgol dalgylch gyda'r 6% arall (10) o ddisgyblion yn byw tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf Glynebwy a/neu allan o'r fwrdeistref).

Data Blwyddyn 1
Allan o 176 disgybl Blwyddyn 1 mae 56.5% (101) disgybl yn mynychu eu hysgol dalgylch o fewn Tredegar/Sirhywi. Mae 38% (68) o ddisgyblion yn mynychu ysgol yn Nhredegar nad yw eu hysgol dalgylch ac mae gweddill y disgyblion, 5.5% (7) yn byw tu allan i Dredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf Glynebwy a/neu allan o'r fwrdeistref).

**b. Pa ysgolion y mae'r cynnig hwn yn debygol o effeithio arnynt?**
Cynhaliwyd gwerthusiad dechreuol i asesu pa ysgolion cynradd y byddai'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a pha rai yr effeithid arnynt yn anuniongyrchol yn ardal Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr, pe datblygid y cynnig am ysgol newydd. Mae tybiaeth mai'r ysgolion yr effeithid arnynt fyddai:

**Effeithio yn uniongyrchol –** gan mai dyma'r unig ysgol gynradd Gymraeg ar hyn o bryd:
**Ebwy Fach (Gogledd))**
- Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau NP13 1YL

**Effeithio yn anuniongyrchol -** gyda symud disgyblion posibl fel canlyniad i ddewis rhieni:
**Ysgolion cyfrwng Saesneg a Ffydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi**
- Ysgol Gynradd Bryn Bach, Heol Merthyr, Tredegar NP22 3RX
- Ysgol Gynradd Deighton, Stockton Way, Tredegar NP22 3ES
- Ysgol Gynradd Georgetown, Heol Oakfield, Tredegar, NP22 4LP
- Ysgol Gynradd Glanhywi, Coach Bach, Tredegar, NP22 4RW
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Ashvale, Dukestown, Tredegar, NP22 4AQ

**Ebwy Fawr (Gogledd)**
- Ysgol Gynradd Glyncoed, Badminton Grove, Glynebwy, NP23 5UL
- Ysgol Gynradd Willowtown, Stryd Brynheulog, Glyn Ebwy NP23 6NJ
- Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Seintiau, Heol-yr-Ysgol, Glynebwy, NP23 6QP

**Ysgol Uwchradd Gymraeg**
- Ysgol Gyfun Gwynllyw, Heol Folly, Trefddyn Catwg, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 8JD

Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys:
- Disgyblion yn symud i'r ardal o awdurdodau cyfagos sy'n ffinio ar Dredegar/Cwm Sirhywi.
- Disgyblion newydd fel canlyniad i ddatblygiadau tai a throsglwyddo o fewn y flwyddyn.

**c. Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio yn gysylltiedig â mynychu ysgol arall o'r un categori ieithyddol**

Pe na byddai'r cynnig hwn yn symud ymlaen, ar gyfer rhieni plant y mae addysg Gymraeg yn ddewis cyntaf iddynt, mae'n debyg y byddai'r amser teithio i ddisgyblion ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn fwy na 50 munud.

Ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd ar ôl ysgol, mae ystyriaethau cludiant a mynediad ychwanegol i rieni os nad oes gan rhieni fynediad i'w cerbyd eu hunain. Yn yr achos hwn byddai angen i rieni ddefnyddio naill ai drafnidiaeth gyhoeddus a/neu wasanaethau tacsi. Nid oes unrhyw gysylltiad trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol i Ysgol Gymraeg Bro Helyg drwy naill ai Dredegar na Glynebwy. Felly, byddai'n rhaid i rieni wneud 3 newid fel sy'n dilyn o Dredegar a 2 o Lynebwy:

- Tredegar i Lynebwy
- Glynebwy i Frynmawr
- Brynmawr i Nantyglo

Byddai wedyn angen i rieni a disgyblion gerdded am o leiaf 15 munud i gael mynediad diogel i'r ysgol o'r safle bws agosaf. Mae'r ddwy daith yn debyg o gymryd mwy na 1 awr bob ffordd, gydag amserau teithio yn amrywiol ac yn anghyson.

Felly mae'n debyg y byddai mynediad a chymryd rhan mewn gweithgaredd yn yr ysgol tu allan i'r oriau yn anos pe na byddai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae llwybrau cerdded a seiclo o nifer o ardaloedd ledled y fwrdeistref yn gyfyngedig.

Mae'r safle a ffefrir, Chartist Way, ar lwybr bws sy'n bodoli eisoes a byddai'n ei wneud yn fwy hygyrch ar gyfer rhieni sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

**Effaith ar y Gymraeg**

Cymraeg fyddai categori iaith yr ysgol gynradd egin a gynigir. Yr unig ysgol gynradd Gymraeg arall ym Mlaenau Gwent yw Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy greu darpariaeth gofal plant, addysg a chymunedol ychwanegol.

| Ysgol | Gweithgareddau ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen arall | A yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau ar gyfer aelodau'r gymuned i ddysgu'r Gymraeg? |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Helyg | • Ysgol: clybiau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion CA2 ar ddyddiau Mawrth, Mercher ac Iau – Celf, Chwaraeon, Drama, Cerddoriaeth, TGCh<br>• Mae'r Urdd yn cynnal clwb ar ddyddiau Llun – gwahanol weithgareddau.<br>• Mae'r Fenter Iaith yn cynnal clwb amser cinio ar ddyddiau Gwener – gwahanol weithgareddau gyda chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Chwaraeon yr Urdd a mynd â phlant i Ganolfan Llangrannog ddwywaith y flwyddyn. | Mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a sesiynau ar gyfer rhieni, teuluoedd a phreswylwyr y gellid eu hymestyn a'u datblygu |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r ysgol yn cynnal clybiau cerddoriaeth pop Gymraeg a gwahanol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru e.e. Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg ym mis Chwefror, Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth, Caffi Cymraeg bob tymor pan wahoddir rhieni a'r gymuned i fore coffi. Caiff sesiynau TED hefyd eu cynnal lle mae rhieni newydd yn dysgu caneuon a geirfa Gymraeg fydd yn eu helpu i gefnogi eu plant gyda'r iaith e.e. mae'r ysgol wedi cynnal sesiynau coginio, sesiynau darllen a sesiynau gyda themâu eraill yn ystod y flwyddyn.<br>• Yn ystod y sesiynau Caffi Cymraeg a TED, caiff y dysgu ei arwain gan y Criw Cymraeg (disgyblion sy'n arwain ar y Siarter Iaith)<br>• Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda dysgwyr Cymraeg Tai Calon a hefyd orsaf radio BGfm<br>• Y datblygiad diweddaraf yw bod yr ysgol wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r Criw Cymraeg o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol (Ystruth, Coed-y-Garn a Blaen-y-Cwm) sy'n ymweld i gynllunio gweithgareddau tebyg i ddisgo Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg a gweld sut mae ein Caffi Cymraeg yn gweithio. Mae ysgolion eraill tebyg i Ysgol Gynradd Deighton wedi ymweld ar gyfer cefnogaeth a gweithgareddau i wella dysgu'r iaith.. | ymhellach os yw'r cynnig am yr ysgol yn mynd yn ei flaen.<br><br>Mae Coleg Gwent yn gweithredu fel asiantaeth partner yn cyflwyno cyrsiau i bobl ifanc ac oedolion. Pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, byddai hyn yn rhoi cyfle i gynyddu darpariaeth gymunedol ac ymgysylltu drwy'r Coleg. |

**d. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (WESP) a Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, ei asiant cyflenwi**

Mae Blaenau Gwent drwy ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (WESP) ynghyd â Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn ymroddedig i ehangu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob ysgol ym Mlaenau Gwent yn addysgu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Byddai'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddysgu a hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg o fewn yr ardal.